Ymhellach i'm neges ebost ar 27 Gorffennaf 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a gyflwynwyd gennych ar 23 Gorffennaf 2015, sef:

A wnewch chi roi gwybod pa gostau oedd yn gysylltiedig â'ch presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru 2015?

O'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu hyd yn hyn, cyfanswm cost ein presenoldeb yn y Sioe yw £17,343.25 gan gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol. Dylid nodi bod y swm hwn yn cynnwys rhai treuliau sydd wedi'u hawlio gan staff, ond mae'n bosibl y bydd treuliau ychwanegol i'w talu sydd heb eu hawlio eto. Sylwch fod elfennau o'r swm a nodwyd uchod yn seiliedig ar ein hamcangyfrif gorau. Er enghraifft, nid ydym yn cadw gwybodaeth wedi'i chofnodi am faint o rai mathau o eitemau hyrwyddo a gafodd eu dosbarthu. At hynny, roedd rhai o'r eitemau a ddefnyddiwyd yn dod o stoc a oedd gennym eisoes ac ni chawsant eu prynu'n benodol i fynychu'r digwyddiad. Serch hynny, rydym wedi cynnwys y rhain yn ein cyfrifiadau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyflawn. Yn ogystal, bydd rhai eitemau y bu i ni eu prynu yn cael eu hailddefnyddio mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Byddaf yn cysylltu â chi eto pan fyddwn wedi casglu'r holl wybodaeth sy'n weddill, a byddwn yn cyhoeddi'r cyfanswm terfynol ar ein gwefan maes o law.

Nodwch y costau yn ôl yr elfennau canlynol, i'r graddau y gellir gwneud hynny:

1. **Y rhent a dalwyd am y safle.**
2. **Cost gosod y stondin (gan gynnwys unrhyw graffeg, trelar, offer, amser staff ac ati) a chost tynnu'r stondin i lawr.**
3. **Cost y nwyddau rhad ac am ddim a roddwyd i bobl (poteli dŵr, darnau arian i'w defnyddio mewn troli, balŵns, pensiliau lliw ac ati). Rwy'n gobeithio eich bod wedi talu'r 5c o dreth ar y bagiau plastig yr oeddech yn eu rhoi i bobl i ddal y nwyddau. A wnewch chi gadarnhau hynny?**
4. **Cost amser staff i ofalu am y stondin am 4 diwrnod, gan gynnwys unrhyw dreuliau.**

Mae fy ymateb i bob un o'ch cwestiynau wedi'i nodi isod. Sylwch fod y costau a nodir isod yn cynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

1. £973.44 (roedd y pris hwn yn cynnwys cyflenwad dŵr a deuddeg tocyn i'r sioe)
2. £3,410.93. Sylwch y bydd rhai eitemau a gafodd eu defnyddio ar gyfer y stondin, megis byrddau posteri, yn cael eu hailddefnyddio mewn digwyddiadau yn y dyfodol.
3. Ein hamcangyfrif gorau yw £1,617.96. Sylwch fod oddeutu £432.10 o'r swm hwn yn gysylltiedig â stoc a oedd gennym eisoes, yn hytrach na stoc a brynwyd yn benodol ar gyfer mynychu Sioe Frenhinol Cymru. Sylwch nad yw'r dreth ar fagiau plastig yn berthnasol i Swyddfa Archwilio Cymru gan nad yw'n adwerthwr. Nid yw'r dreth yn berthnasol i eitemau a gaiff eu rhoi'n rhad ac am ddim. At hynny, roedd y bagiau plastig a ddefnyddiwyd yn dod o stoc a oedd gennym eisoes.
4. £11,261.16. Dylid nodi bod y swm hwn yn cynnwys rhai treuliau sydd wedi'u hawlio gan staff, ond gallai fod treuliau ychwanegol i'w talu sydd heb eu hawlio eto. Fel y soniais uchod, byddaf yn cysylltu â chi eto pan fyddwn wedi casglu manylion yr holl dreuliau sy'n weddill i'w hawlio gan y staff, a byddwn yn cyhoeddi'r cyfanswm terfynol ar ein gwefan maes o law.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais mae croeso i chi anfon ebost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Phillips

Ymhellach i'm neges ebost ar 18 Awst 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ddarparu cost derfynol ein presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru. Y ffigur a roddais i chi'n flaenorol oedd £17,343.25 gan gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol, ond fel y nodais yn fy ebost ar 18 Awst 2015 roedd y swm hwnnw'n amodol ar unrhyw dreuliau a oedd yn dal heb eu hawlio gan staff. Mae'r holl staff bellach wedi hawlio eu treuliau, a chyfanswm cost ein presenoldeb oedd £17,903.27 gan gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Phillips